The Fostering Network
87 Blackfriars Road
London
SE1 8HA

Annwyl

Trwy gydol mis Hydref yn Y Rhwydwaith Maethu, buom yn eich dathlu chi – plant anhygoel gofalwyr maeth – a'r rôl hanfodol sydd gennych mewn teuluoedd sy'n maethu. Felly, roedd arnaf eisiau cymryd y cyfle hwn i ddweud diolch yn fawr iawn ichi am y gwahaniaeth enfawr rydych yn ei wneud ym mywydau plant mewn gofal maeth.

Deallaf nad yw bod yn rhan o deulu maeth bob amser yn hawdd – mae'n golygu cyfaddawdu, newid ac weithiau ffarwelio anodd.  Ond mae'ch ymrwymiad i faethu wedi helpu i roi'r cyfle gorau posibl i blant a phobl ifanc ffynnu.

Clywsom gan blant gofalwyr maeth dros y blynyddoedd sy'n dweud y gall maethu fod yn anodd ar adegau ond serch hynny na fyddent yn newid eu profiad o dyfu'n oedolion mewn aelwyd sy'n maethu.  Mae bod yn rhan o deulu sy'n maethu wedi rhoi dirnadaeth unigryw iddynt o fywydau plant na fyddent efallai byth wedi cyfarfod â nhw pe na bae eu teulu wedi penderfynu maethu.

Am faint bynnag o amser rydych wedi bod yn maethu, mae arnaf eisiau diolch ichi am y gefnogaeth a ddangosasoch i blant mewn gofal maeth – am fod yn gyfaill pan fo arnynt ei angen fwyaf, am fod yn amyneddgar pan fônt yn ymgartrefu yn y cartref, a'u hamddiffyn pan fo arnynt angen cefnogaeth.

Mae pawb yn Y Rhwydwaith Maethu a'r gymuned faethu gyfan yn anhygoel o ddiolchgar am y caredigrwydd rydych yn parhau i'w ddangos.  Heno, bydd dros 65,000 o blant ledled y Deyrnas Unedig yn byw gyda theulu sy'n maethu, a bydd miloedd o bobl ifanc fel y chi yn helpu i wneud iddynt deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu caru.

Mae'ch ymrwymiad i faethu yn newid bywydau – diolch ichi am bopeth.

Sarah Thomas

Prif Weithredwr Y Rhwydwaith Maethu

**The Fostering Network** Registered office 87 Blackfriars Road, London SE1 8HA
Registered charity in England and Wales 280852 and in Scotland SC039338
Registered in England and Wales as a limited company no. 1507277 VAT Registration 231 6335 90
**Y Rhwydwaith Maethu** Swyddfa gofrestredig 87 Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA
Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru rhif 280852 ac yn yr Alban rhif SC039338
Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru fel cwmni cyfyngedig rhif 1507277
Rhif Cofrestru ar gyfer TAW 231 6335 90
thefosteringnetwork.org.uk